# PWYLLGOR TRWYDDEDU

Dydd Iau, 24 Mai 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
J.K. Howell, H.I. Jones, D.E. Williams, J.M. Charles, R.E. Evans, J.G. Prosser, W.T. Evans, C.A. Davies, A.L. Fox, J.E. Williams and A.S.J. McPherson

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
E. Jones, Pen-swyddog Trwyddedu
J. Power, Uwch Swyddog Trwyddedu
K. Smith, Licensing Officer
M. Heath, Swyddog Trwyddedu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 am - 3.40 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr A. Davies, P. Edwards a H.I. Jones (sesiwn y prynhawn yn unig).

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. MR GARY JOHN INMAN - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Gary John Inman o 85 Bro Einon, Llanybydder, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Inman ynghylch y mater hwnnw

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr Inman yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr Gary John Inman yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 4. MR JOHN MORGAN EVANS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr John Morgan Evans o 2 Cwrt y Glyn, Carmel, Llanelli, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Evans ynghylch y mater hwnnw.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod Mr. Evans yn cael rhybudd terfynol ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD yn unol â chanllawiau'r Cyngor, fod Mr John Morgan Evans yn cael rhybudd ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

## 5. MR ADAM LEE PRICE - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Ystyriodd y Pwyllgor gais gan Mr Adam Lee Price o 15 Teras Parc y Sgubor, Caerfyrddin am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Price ynghylch ei gais. Hefyd cafodd y Pwyllgor sylwadau gan ddarpar gyflogwr o blaid cais Mr Price.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Price yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Adam Lee Price am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

Y Rheswm

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 6. MR SONNY JOEL HUDYMA-BILTON - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Ystyriodd y Pwyllgor gais gan Mr Sonny Joel Hudyma-Bilton o 13 Clos Gwili, Cwmgwili, Caerfyrddin am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Hudyma-Bilton ynghylch ei gais. Hefyd cafodd y Pwyllgor sylwadau gan ddarpar gyflogwr o blaid cais Mr Hudyma-Bilton.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Hudyma-Bilton yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Sonny Joel Hudyma-Bilton am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 7. MR KEITH THOMAS - CAIS AM DRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cais Mr Keith Thomas, 44 Coedlan y Graig, Llanelli am drwydded yrru ddeuol ar gyfer cerbyd hacnai/hurio preifat.

Bu'r Pwyllgor yn cyfweld â Mr Thomas ynghylch ei gais.

Argymhellodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod cais Mr Thomas yn cael ei wrthod.

Ar hynny:

**PENDERFYNODD y Pwyllgor gynnal sesiwn preifat er mwyn cael cyngor cyfreithiol yn unol â Pharagraff 16 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.**

Ar ôl y toriad, ailymgynullodd y Pwyllgor i roi ei benderfyniad.

**PENDERFYNWYD, yn unol â chanllawiau'r Cyngor, ganiatáu cais Mr Keith Thomas am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat a rhoi rhybudd iddo ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol.**

<u>Y Rheswm</u>

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, yr oedd y Pwyllgor yn fodlon bod yr ymgeisydd yn rhywun addas a phriodol i feddu ar drwydded.

## 8. MR STUART KEITH PHILLIPS - TRWYDDED YRRU DDEUOL CERBYD HACNAI/HURIO PREIFAT

Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod Mr Stuart Keith Phillips o 15 Tir Capel, Llanelli, yn meddu ar Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Cerbyd Hacnai/Hurio Preifat gan yr Awdurdod a bod mater wedi codi ynghylch ei drwydded.

Dywedodd yr Uwch-swyddog Trwyddedu fod gohebiaeth wedi dod i law gan gynrychiolydd cyfreithiol Mr Phillips ar ôl i agenda'r cyfarfod gael ei dosbarthu, a oedd yn gofyn am ohirio'r gwrandawiad tan ar ôl yr achos llys sydd ar ddod.

**PENDERFYNWYD gohirio ystyried cais Mr Stuart Keith Phillips am Drwydded Yrru Ddeuol ar gyfer Hurio Preifat tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.**

**HYD Y CYFARFOD**

**Am 12.45 pm tynnwyd sylw'r Pwyllgor at Reol Sefydlog 9 'Hyd Cyfarfod', a gan fod y cyfarfod wedi bod yn mynd rhagddo ers tair awr a bod angen ystyried nifer o eitemau o hyd,**

**PENDERFYNWYD bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu dros dro er mwyn gallu ystyried yr eitemau oedd yn weddill ar yr agenda.**

**Ar hynny, cafodd y Pwyllgor ei ohirio am 12:45 p.m. ac ailddechreuwyd y cyfarfod am 1:45 p.m. er mwyn ystyried yr eitemau canlynol**

**Yn bresennol: Y Cynghorydd E.G. Thomas (Cadeirydd)**

**Y Cynghorwyr: J.M Charles, A. Davies, R. Evans, W.T. Evans, A.L Fox, J.K. Howell, A.S.J. McPherson, J. G. Prosser, D.E. Williams and J.E. Williams**

Mr E. Jones - Pen-swyddog Trwyddedu
Mr R. Edgecombe – Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Ms K. Smith – Swyddog Trwyddedu
Mr K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**9. DEDDF HAPCHWARAE 2005 - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y COMISIWN HAPCHWARAE ADOLYGU'R POLISI HAPCHWARAE**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i Mr P. Edmunds, Rheolwr Cydymffurfio y Comisiwn Hapchwarae, a wahoddwyd i gyflwyno trosolwg ar y Rheoliadau Hapchwarae ynghylch y meysydd canlynol:-

- System Deiran
- Cyllid a Thrwyddedu
- Pwerau Awdurdod Lleol
- Y 4 mater i'w hystyried o ran Trwyddedu, Arolygu a Gorfodi
- Datganiad Polisi
- Yr hyn y mae'r Comisiwn yn ei wneud
- Dim problemau
- Pethau i'r Pwyllgorau Trwyddedu eu hystyried

Cafodd y Pwyllgor gyfle i ofyn cwestiynau, ac yna diolchodd y Cadeirydd i Mr Edmunds am y cyflwyniad.

Cyfeiriodd y Pen-swyddog Trwyddedu at yr adroddiad gan atgoffa'r Pwyllgor ei fod yn ofynnol yn unol â gofynion Deddf Hapchwarae 2005 i Awdurdodau Trwyddedu lunio Polisi Hapchwarae ac adolygu'r polisi hwnnw bob tair blynedd. Yn unol â'r gofyniad hwnnw, roedd y Cyngor wedi dechrau dogfen ymgynghori ynghylch ei Bolisi Hapchwarae yn ddiweddar. Anogwyd aelodau nad oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad i wneud hynny erbyn y dyddiad cau ar 1 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad a'r cyflwyniad.**

## 10. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad ar yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd o Bolisi Trwyddedu y Cyngor. Nodwyd pan oedd yr Awdurdod wedi mabwysiadu'r polisi trwyddedu presennol ym mis Chwefror 2016, fod penderfyniad wedi ei wneud i gynnal ymgynghoriad arall ynghylch y posibilrwydd o fabwysiadu Polisi Effaith Gronnol ar gyfer Heol Awst, Caerfyrddin. Yn unol â'r penderfyniad hwnnw, roedd ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y Polisi Effaith Gronnol a fyddai'n dod i ben ar 1 Mehefin 2018. Wedi hynny, byddai ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno fel rhan o adroddiad i'r Cyngor ar 12 Rhagfyr 2018. Anogwyd aelodau nad oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad i wneud hynny erbyn y dyddiad cau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 11. DEDDF TRWYDDEDU 2003 - CAIS YN YMWNEUD Â DOSBARTHIAD FFILM

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad yn amlinellu cais gan Mrs Mair Craig ar ran Ystafelloedd Darllen Llansadwrn am argymhelliad ynghylch caniatáu i blant wylio tair ffilm fer nad oeddynt wedi cael eu dosbarthu yn flaenorol.

Yr oedd yr ymgeisydd yn bwriadu arddangos dwy ffilm Gymraeg, sef "Titch" a "Marw Stripio", ynghyd â ffilm Saesneg sef "Dial a Ride" cyn dangos ffilm dystysgrifedig yn y sinema gymunedol. Yn ogystal, yr oedd y safle'n bwriadu gweithredu'r sinema gymunedol o dan yr esemptiadau safle cymunedol a nodir ym mharagraff 6A o Atodlen 1 i Ddeddf Trwyddedu 2003.

Nododd y Pwyllgor y dylai'r ffilmiau a ddangosir gael argymhelliad ynghylch caniatáu i blant eu gwylio, a roddwyd naill ai gan gorff Bwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain neu gan yr Awdurdod Trwyddedu perthnasol, a hynny er mwyn bodloni gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Er mwyn i'r Pwyllgor allu gwneud yr argymhellion gofynnol ynghylch caniatáu i blant wylio'r ffilmiau, cafodd y cyfle i wylio'r tair ffilm fer gan roi ystyriaeth i'r cyfeiriadau at ymddygiad dynwaredadwy, iaith, noethni a rhyw.

Rhoddwyd sylwadau ysgrifenedig i'r Pwyllgor gan yr ymgeisydd ynghylch y tair ffilm.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw priodol i'r paragraffau perthnasol o Ddatganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ac o Ganllawiau gan Fwrdd Dosbarthu Ffilmiau Prydain a oedd wedi'u hatodi i'r adroddiad yn Atodiad 1.

Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd ger ei fron,

**PENDERFYNODD y Pwyllgor:**

1. **y dylai "Titch" gael ei hystyried yn ffilm sydd dan gyfarwyddyd rhiant (PG)**
2. **y dylai "Dial a Ride" gael ei hystyried yn ffilm na chaiff personau o dan 12 oed ei gwylio heb gyfarwyddyd rhiant (12A)**
3. **y dylai "Marw Stripio" gael ei hystyried yn ffilm na chaiff personau o dan 15 oed ei gwylio (15)**

**12. PENODI AELODAU I EISTEDD AR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU 2018-19**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ar ddarpariaethau Deddf Trwyddedu 2003 a roddai fanylion ynghylch aelodaeth arfaethedig Is-bwyllgorau Trwyddedu "A" a "B" ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y byddai aelodaeth Is-bwyllgorau Trwyddedu "A" a "B" ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19 fel a ganlyn:-**

**Is-bwyllgor Trwyddedu "A”**

**Y Cynghorwyr: Andre McPherson; Mansel Charles; Ann Davies; Rob Evans; Amanda Fox; Ken Howell ac Elwyn Williams.**

**Is-bwyllgor Trwyddedu B”**

**Y Cynghorwyr: Alun Davies; Tyssul Evans; Penny Edwards; Irfon Jones; John Prosser; Edward Thomas ac Eirwyn Williams.**

**13. PENODI CADEIRYDDION YR IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2018/19**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr enwebiadau am Gadeiryddion yr Is-bwyllgorau Trwyddedu ar gyfer blwyddyn y cyngor 2018/19.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**13.1 Bod y Cynghorydd J.M. Charles yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu “A” am flwyddyn y cyngor 2018/19**

**13.2 Bod y Cynghorydd A. Davies yn cael ei benodi'n Gadeirydd Is-bwyllgor Trwyddedu "B" am flwyddyn y cyngor 2018/19**

**14. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "A" A GYNHALIWYD AR 6 MAWRTH 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'A' a gynhaliwyd ar 6 Mawrth, 2018, yn gofnod cywir.**

**15. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD YR IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU "B" A GYNHALIWYD AR 19 EBRILL 2018**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod Is-bwyllgor Trwyddedu 'B' a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2018, yn gofnod cywir.**

**16. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD AR 4 EBRILL, 2018.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 4 Ebrill 2018 yn gofnod cywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |